CHWECHED DOSBARTH

Pa lwybr?

Ella Bulmer
Pynciau Lefel A: Bioleg, Sbaeneg, Tystysgrif Her Sgiliau (Y Fagloriaeth Gymraeg)
Cwrs: Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd

Lowri Cant
Pynciau Lefel A: Llenyddiaeth a'r Iaith Saesneg, Ffrangeg, Addysg Gorfforol
Cwrs: Astudiaethau Ffrangeg gyda Busnes, Prifysgol Llundain – Athrofa Paris

Morus Bowen
Pynciau Lefel A: Cyfrifiadureg, Mathemateg, Ffiseg
Cwrs: Cyfrifiadureg, Prifysgol Caerfaddon

Morgan Dryburgh
Pynciau Lefel A: Technoleg Gwybodaeth, Llenyddiaeth a'r Iaith Saesneg, Diploma Lefel 3 Bwyd a Maeth
Cwrs: Astudiaethau Cyfryngau, Prifysgol Aberystwyth

Gwenno Goode
Pynciau Lefel A: Addysg Gorfforol, Gwleidyddiaeth a Seicoleg
Cwrs: Newyddiaduraeth Chwaraeon, Prifysgol La Salle, Oregon

Finnian Orders
Pynciau Lefel A: Llenyddiaeth Saesneg, Daearyddiaeth, Gwleidyddiaeth, Hanes
Cwrs: Hanes, Prifysgol Caergrawnt

Keira Mabey
Pynciau Lefel A: Cymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg
Cwrs: Ffrangeg a Sbaeneg, Prifysgol Caerdydd

Sam Jordan
Pynciau Lefel A: Mathemateg Pellach, Mathemateg, Ffiseg
Cwrs: Busnes a Chyllid, Prifysgol Daytona, Florida

Y Tîm

Mae mwy na phenaethiaid blwyddyn i'ch cynorthwyo yn ystod eich cyfnod gyda ni yn y Chweched Dosbarth. Dewch i adnabod y tîm sydd yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd.

Mrs Catrin Bennett – Dirprwy Bennaeth

Mrs Sian James – Arweinydd Her

Mr James Evans - Arweinydd Sgiliau a Galwedigaethol

Eich Tiwtoriaid Personol

Ms Elinor Williams – Gyrfa Cymru

Mr Martin Blamey – Cyngor Ceisiadau Prifysgol - Meddygaeth

Edrychwn ymlaen i'ch gweld chi ym mis Medi. Cofiwch gysylltu â ni cyn hynny os oes gennych chi gwestiynau:
B.Morgan@ygbm.co.uk | O.Rowlands@ygbm.co.uk
Penaethiaid y Chweched Dosbarth

YSGOL GYMRAEG BRO MORGANNWG

Dewch i ymuno gyda ni yn y **Chweched!**

CHWECHED DOSBARTH

Gair y Pennaeth

Dyma gyfnod pwysig a chyffrous wrth i chi feddwl o ddifri ynglŷn â'r cam nesaf yn eich bywydau a'ch addysg. Os mai'r penderfyniad fydd dychwelyd i Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, edrychwn ymlaen i'ch croesawu ac i gyd-weithio i sicrhau eich bod yn derbyn yr addysg orau a'r cyfleoedd allgyrsiol gorau er mwyn eich galluogi i lwyddo yn y dyfodol.

Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ym mis Medi ac edrychwn ymlaen at eich gweld.

Prif Ddisgyblion

Cai Barker - Prif Fachgen
Rydw i'n hynod o ddiolchgar o gael y cyfle i fod yn Brif Fachgen eleni ac i'ch cynrychioli. Fy mhrif gyngor i ddisgyblion newydd y Chweched yw i fwynhau'r profiadau ac i gymryd pob cyfle. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn dysgu amrywiaeth o sgiliau newydd ac yn datblygu fel unigolyn. Bydd croeso mawr i chi gan y Chweched ym mis Medi.

Molly Jordan - Prif Ferch
Mae'n anrhydedd i gael fy ethol fel Prif Ferch eleni ac rydw i'n awyddus i gael y cyfle i helpu dyfodol yr ysgol drwy roi rhywbeth nôl i'n cymuned ni. Mwynhewch y cyfleoedd byddwch yn eu profi a sicrhewch eich bod yn gweithio'n gyson. Bydd hyn yn eich caniatáu i reoli eich amser yn dda adeg arholiadau.

Rhys Leonard – Dirprwy Brif Fachgen
Rydw i wedi bod yn ffodus iawn i gael y fraint o fod yn Ddirprwy Brif Fachgen. Hown fod yn fodel rôl cadarnhaol i chi ar werthoedd yr ysgol sef Parch, Cymreictod a Dyfalbarhad. Bydd croeso mawr i chi gyd ym mis Medi a byddwn yn eich cynorthwyo gyda'r broses o bontio rhwng Bl 11 a'r Chweched yn y misoedd nesaf.

Elena Preest– Dirprwy Brif Ferch
Fy nghyngor i chi fel Dirprwy Brif Ferch yw i fynd amdani yn y Chweched! Mae'r cyfnod newydd hwn yn gyfle gwych i drio pethau newydd ac i herio eich hunain. Cymerwch bob cyfle i fod yn aelod o bwyllgor, cyfrannu at ddiwrnodau elusennol ac i fod yn arweinydd i ddisgyblion iau. Rydw i wedi bod yn ffodus iawn o'r holl gymorth wrth wneud cais cynnar i Gaergrawnt eleni. Bydd cymorth ar gael i chi am ba bynnag llwybr y byddwch yn ei ddewis.

Croeso gan Benaethiaid y Chweched

Rydym yn hapus iawn i'ch gwahodd yn ôl i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi er mwyn parhau gyda'ch addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch gofalgar ac uchelgeisiol. Mae camu i'r Chweched gyda ni yn golygu y byddwch yn derbyn yr arweiniad gorau o ran datblygiad academaidd gydag athrawon sy'n eich adnabod yn arbennig ac yn gofalu amdanoch. Mae eich iechyd a'ch lles yn flaenoriaeth i ni a gallwch ddibynnu'n llwyr ar eich Tiwtoriaid Personol profiadol bydd ar gael ar unrhyw adeg. Fel tîm y Chweched, rydym yn awyddus i weithio gyda chi dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn gwireddu eich uchelgais a'ch datblygu fel arweinwyr brwd. Dewch I gael sgwrs unrhyw adeg yn yr wythnosau nesaf wrth i chi benderfynu ar eich llwybr nesaf. Cewch groeso cynnes gennym ym mis Medi!

Mr Owain Rowlands (Pennaeth Blwyddyn 12, 2024) a **Mrs Bethan Morgan** (Pennaeth Blwyddyn 13, 2024)

CHWECHED DOSBARTH

Manteision Astudio yn y Chweched Dosbarth

- Croeso cynnes
- Gofal unigryw
- Diwylliant Cymreig
- Adnabyddiaeth athrawon
- Canlyniadau rhagorol
- Amrywiaeth o bynciau
- Ymdeimlad o berthyn
- Cyfleoedd allgyrsiol amrywiol
- Amser wedi'i neilltuo i ofalu am iechyd a lles
- Cyngor arbenigol a chefnogaeth gyda cheisiadau prifysgol, prentisiaethau a'r byd gwaith.

Dyma'r Prif Ddisgyblion yn gwisgo'r wisg fel y dylai edrych.

Adnoddau i'r Chweched

- Lolfa i ymlacio a chymdeithasu
- Ystafelloedd astudio i'r Chweched Dosbarth yn unig
- Llyfrgell Ysgol
- Caffi a ffreutur hamddenol
- Adnoddau Adran Addysg Gorfforol (Cae 3G, Ystafell Ffitrwydd, Neuadd Chwaraeon).

CHWECHED DOSBARTH

Bywyd yn y Chweched

Cewch gyfnodau rhydd i gyflawni eich gwaith annibynnol, cymdeithasu a gwirfoddoli.

Mwynhewch yr hyblygrwydd i adael y safle.

Blaswch amrywiaeth o gyrsiau newydd.

Manteisiwch ar y cyfle i arwain clybiau, pwyllgorau, diwrnodau pontio ac i helpu mewn nosweithiau agored.

Paratowch ar gyfer eich dyfodol drwy wrando ar siaradwyr gwadd o fyd gwaith a gyrfaol fydd yn cynnig cyngor defnyddiol.

Cymerwch y cyfle i gwrdd â chyn-ddisgyblion fydd yn ymweld â chi yn ystod y ddwy flynedd i rannu eu profiadau.

Manteisiwch ar deithiau i ymweld â Phrifysgolion a'r diwydiant byd gwaith.

Cyfleoedd arbennig

Arwain

Cyrsiau Preswyl - Bydd cyfleoedd yn ystod eich dwy flynedd yn y Chweched Dosbarth i fynychu cyrsiau preswyl ac alldeithiau gyda disgyblion iau yr ysgol. Yn ystod y cyrsiau hyn, cewch gyfle i arwain, cynorthwyo, rheoli a chyfathrebu gyda'r disgyblion er mwyn arwain drwy esiampl.

Pwyllgorau – Unwaith eto eleni bydd sawl pwyllgor a chi, ddisgyblion y chweched, fydd yn gyfrifol am gynnal ac arwain y gweithgareddau a'r cyfarfodydd. Cynhelir y pwyllgorau canlynol: Cymreictod, Marchnata, Cydraddoldeb, Eco, Iechyd a Lles ac Elusennol.

Clybiau a Llysoedd – Rhoddir cyfle i chi yn y Chweched Dosbarth i gynnal ac arwain clybiau allgyrsiol o'ch dewis chi. Eleni, cynhaliwyd nifer o glybiau newydd a chyffrous i ddisgyblion iau yr ysgol, fel clybiau codi pwysau, crefft, dadlau a chyd-weithiwyd gyda'r ysgolion cynradd i gynnal clybiau yno hefyd drwy waith cymunedol.

Cyfleoedd

Gwobr Dug Caeredin – Bydd cyfle i chi fynd am her newydd eto wrth weithio tuag at y Wobr Aur gyda Gwobr Dug Caeredin. Y tro hwn bydd yr alldaith yn 4 diwrnod o hyd a chynhelir gwersi wythnosol i'ch paratoi drwy fis Mawrth.

Rhwydwaith Seren – Cynigir cyngor arbenigol gan Mrs James, Arweinydd Her i aelodau'r rhwydwaith er mwyn paratoi ar gyfer Prifysgolion Caergrawnt, Rhydychen a'r Grŵp Russell. Rhennir cyfleoedd arbennig wedi'u teilwra ar gyfer anghenion yr unigolyn er mwyn ymestyn gorwelion ac ehangu profiadau'r dysgwyr, gan gynnwys cyrsiau, cyflwyniadau a chyngor er mwyn ymgeisio i'r Prifysgolion.

Teithiau –Yn ystod eich cyfnod gyda ni yn y Chweched Dosbarth, bydd cyfle i chi deithio i'r llefydd canlynol gyda'ch pynciau; Seville, Rhufain, Llundain, Gwlad yr Iâ, Berlin, Paris, Efrog Newydd a Washington.